**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 24 CHWEFROR 2021 DYDD MERCHER, 24 CHWEFROR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Rheolwr Gyfarwyddwr. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Derbyniwyd y datganiad buddiant dilynol:-<br><br><u>Cynghorydd J. Wilkins</u><br>Eitem Rhif 14<br>Rhaglen Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu a Chynllun Cyllido Ad-daladwy Canol Trefi. | |
| | **<u>COFNODION</u>** | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **<u>MATERION CYFFREDINOL</u>** | |
| **No. 5** | **<u>CYNADLEDDAU, CYRSIAU, DIGWYDDIADAU A GWAHODDIADAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i bresenoldeb yn y dilynol:-<br><br><u>Digwyddiad Darlledu Rhithiol Byw a sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda Thîm Ymgysylltu y Fyddin</u><br><br>Cytunwyd cymeradwyo presenoldeb y Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog.<br><br><u>Seremoni Wobrwyo 2021 Arglwydd Raglaw Gwent Ei Mawrhydi</u><br><br>Cytunwyd cymeradwyo presenoldeb y Cynghorydd Mandy Moore, Cadeirydd y Cyngor a'r Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 6** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH – 14 EBRILL 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 7** | **GRANTIAU I SEFYDLIADAU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y derbyniwyd tair grant arall gan y Cynghorydd L. Elias, Ward Brynmawr, fel sy'n dilyn:-<br><br>Eglwys yng Nghymru Santes Fair £100.00<br>Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair £100.00<br>Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm £100.00<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>Derbyniwyd y grantiau ychwanegol dilynol i sefydliadau:-<br><br>**ABERTYLERI**<br><br>**Ward Cwmtyleri - Cynghorydd M. Day**<br><br>1. Rhandiroedd Stryd yr Esgob £100<br>2. Chillax £100<br>3. Clwb Cinio Cwmtyleri £75<br>4. Sefydliad Llesiant Gweithwyr Abertyleri £75<br>5. Pêl-rwyd Iau Tillery Dragons £75<br>6. Côr Ebwy Fach £75<br>7. Eglwys Bedyddwyr Blaenau Gwent £75<br>8. Cymdeithas Coetir Gymunedol Roseheyworth & Bournville. £75<br>9. Cangen Abertyleri y Lleng Brydeinig Frenhinol £32.28 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ward Cwmtyleri - Cynghorydd J. Wilkins** | | | |
| | 1. | BGfm | £100 | |
| | 2. | Clwb Pêl-droed Iau Abertillery Excelsiors | £100 | |
| | 3. | Cyfeillion Pentref Blaenau Gwent | £100 | |
| | 4. | Sefydliad Llesiant Gweithwyr Abertyleri | £150 | |
| | **Ward Llanhiledd – Cynghorydd N. Parsons** | | | |
| | 1. | Sefydliad Llesiant Gweithwyr Abertyleri | £50 | |
| | 2. | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Aber-bîg | £250 | |
| | **Ward Llanhiledd - Cynghorydd H. McCarthy** | | | |
| | 1. | Canolfan Gymunedol Aber-bîg | £150 | |
| | 2. | Canolfan Gymunedol Swffryd | £100 | |
| | 3. | Capel Seion, Llanhiledd | £150 | |
| | 4. | River Rangers | £100 | |
| | 5. | Cymuned New Life | £100 | |
| | **Ward Llanhiledd - Cynghorydd J. Collins** | | | |
| | 1. | Clwb Pêl-droed Ieuenctid Abertillery Bluebirds | £250 | |
| | **Ward Six Bells - Cynghorydd D. Hancock** | | | |
| | 1. | Clwb Bowls Six Bells | £300 | |
| | 2. | Clwb Bowls Dros 50 Six Bells | £100 | |
| | 3. | Cymdeithas Menywod | £100 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Busnes a Phroffesiynol Abertyleri. | |
| | 4. | Clwb Pêl-droed Iau Abertillery Excelsiors | £100 |
| | 5. | Clwb Pêl-droed Amatur Abertillery Excelsiors | £100 |
| | 6. | Clwb Rygbi Old Tyleryan | £100 |
| | **<u>Ward Six Bells – Cynghorydd M. Holland</u>** | | |
| | 1. | Cyfeillion Parc Six Bells | £300 |
| | 2. | Clwb Dros 50 Six Bells | £100 |
| | 3. | Cymdeithas Menywod Busnes a Phroffesiynol Abertyleri | £100 |
| | 4. | Clwb Pêl-droed Iau Abertillery Excelsiors | £100 |
| | 5. | Clwb Pêl-droed Amatur Abertillery Excelsiors | £100 |
| | 6. | Clwb Rygbi Old Tyleryan | £100 |
| | **<u>BRYNMAWR</u>** | | |
| | **<u>Ward Brynmawr - Cynghorydd L. Elias</u>** | | |
| | 1. | Showstoppers | £150 |
| | *2.* | BGfm Radio | £150 |
| | **<u>Ward Brynmawr – Cynghorydd J. Hill</u>** | | |
| | 1. | Bedyddwyr Calfaria | £100 |
| | *2.* | Partneriaeth Canol Tref Brynmawr | £100 |
| | 3. | Cymdeithas Amgueddfa Brynmawr a’r Cylch | £100 |
| | 4. | Cyfeillion Parc Nant y Waun | £100 |
| | 5. | Cymdeithas Hanesyddol Brynmawr | £100 |
| | 6. | Clwb Pêl-droed Brynmawr | £100 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ward Brynmawr - Cynghorydd W. Hodgins** | | | |
| | 1. | Clwb Pêl-droed Brynmawr | £200 | |
| | *2.* | Eglwys yng Nghymru Santes Fair | £150 | |
| | 3. | Cyfeillion Parc Nant y Waun | £200 | |
| | 4. | Clwb Interact Ebwy Fach | £100 | |
| | 5. | Clwb Rygbi Brynmawr | £200 | |
| | 6. | Caerphilly Angling (Lakeside Brynmawr) | £150 | |
| | 7. | Ysgol Blaen y Cwm | £100 | |
| | 8. | Ysgol Gatholig Santes Fair | £100 | |
| | **GLYNEBWY** | | | |
| | Ward Beaufort - Cynghorydd G. Thomas a S. Healy | | | |
| | 1. | Cadeirydd Apêl Elusen y Cyngor | £100 | |
| | 2. | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Beaufort | £500 | |
| | 3. | Raglan Terrace WOAP | £100 | |
| | 4. | Cymdeithas Cadwraeth Llynnoedd a Choetiroedd Rhiw Beaufort | £100 | |
| | 5. | Eglwys Fethodistaidd Bethel | £100 | |
| | **NANTYGLO A BLAENAU** | | | |
| | Ward Blaenau - Cynghorydd L. Winnett | | | |
| | 1. | Canolfan Gymunedol Blaenau | £150 | |
| | Ward Nantyglo - Cynghorydd J. Mason & K. Rowson | | | |
| | 1. | Ysgol Coed y Garn | £200 | |
| | 2. | Ysgol Bro Helyg | £200 | |
| | Ward Nantyglo - Cynghorydd P. Baldwin | | | |
| | 1. | Grŵp Sgowtiaid 1af Blaenau | £100 | |

| | | |
|---|---|---|
| | 2. ATC Blaenau £100<br>3. Clwb Rygbi Nantyglo £100<br><br>**<u>TREDEGAR</u>**<br><u>Ward Sirhywi - Cynghorydd B Thomas</u><br><br>1. Capel Ebeneser £300<br>2. Eglwys San Siôr £300<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>CYLLIDEB REFENIW 2021/2022</u>**<br><br>**<u>CYLLIDEB REFENIW 2021/2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau drosolwg manwl o'r adroddiad a gyflwynwyd i roi diweddariad ar setliad darpariaethol cadarnhaol llywodraeth leol ar gyfer 2021/22 a'i effaith ar gyllideb y Cyngor. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r gyllideb refeniw fanwl a gynigir ar gyfer 2021/22 a'r lefel a gynigir ar gyfer cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 yn unol â thybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad ac amlinellu'r sefyllfa genedlaethol, sefyllfa Blaenau Gwent, y pwysau cost a'r eitemau twf ynghyd â rhaglen Pontio'r Bwlch. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Adnoddau at y pwysau cost a ragwelwyd gyda Covid-19 a dywedodd fod tybiaeth y byddai'r pwysau cost hyn yn parhau i gael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y cadarnheir cyllid Covid fel rhan o gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021.<br><br>Cyfeiriodd y Prif Swyddog Adnoddau ymhellach at yr ymgynghoriad ar y gyllideb sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a dywedodd y bu 170 ymateb hyd yma a gytunodd mai Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd ddylai fod yn ffocws y gyllideb ym Mlaenau Gwent. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr gyda'r incwm a gynigir mewn cyllidebau ysgol, fodd bynnag mae pryder am y cynnydd a gynigir o 4% yn y Dreth Gyngor. Mae cyfnod yr ymgynghoriad yn dal ar agor a rhoddir adborth i'r Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.<br><br>Soniodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a gafodd ei ystyried yn faith gan y Cydbwyllgor Craffu a chytunwyd ar y rhan fwyaf o'r argymhellion. Fodd bynnag, cynigiodd y Cyd-bwyllgor Craffu y dylai'r Cyngor ystyried lefel is o gynnydd yn y Dreth Gyngor a'r effaith gysylltiedig ar gyllideb y Cyngor. | |

Dymunai'r Arweinydd ddiolch i'r Tîm Adnoddau a deiliaid cyllideb ar ran y Pwyllgor Gweithredol an y gwaith enfawr a wnaed ar y gyllideb. Mae'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa o gefnogi nodau, uchelgeisiau a dyheadau a fyddai'n trosi i gymunedau ym Mlaenau Gwent. Teimlai'r Awdurdod nad oedd gosod y gyllideb yn dasg rwydd ac y byddid yn gwneud y gyllideb hon a chyllidebau'r dyfodol mewn ffordd wahanol i'r hyn a ragwelid yn draddodiadol, fodd bynnag yn y dyfodol mae'r ffordd hon yn effeithlon wrth osod cyllideb y Cyngor.

Mae'r ffordd y caiff y chyllideb ei gosod yn awr yn galluogi meddwl ymlaen llaw ar yr hyn y gallai'r Awdurdod ei wynebu a sut y byddai'r Awdurdod yn ateb yr heriau hynny. Mae'r gyllideb hon yn arddangosiad da o'r gwaith hwnnw ac yn dangos yr angen i'r swyddogion sy'n gyfrifol am wahanol feysydd cynlluniau Blaenau Gwent na ddylid bychanu pwyslais y gwaith hwn yn mynd ymlaen i 2022/23 a thu hwnt.

Roedd yr Arweinydd wedi gobeithio y gallai'r Awdurdod ddod allan o'r pandemig yn edrych ar rannau newydd prosiect Pontio'r Bwlch sy'n rhoi trefniadau eraill a fyddai'n cynorthwyo'r Awdurdod ar sut y caiff cyllidebau eu llunio yn y dyfodol.

Roedd yr Arweinydd yn falch i weld lefel yr adborth cyhoeddus a'r blaenoriaethau a nodwyd yw blaenoriaethau'r weinyddiaeth hon. Mae'r pandemig wedi rhoi'r Awdurdod gam yn ôl o ran ymgynghoriad. Mewn amgylchiadau arferol, byddai'r Pwyllgor Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi mynd allan i gymunedau i ymgynghori wyneb yn wyneb mewn canol trefi, archfarchnadoedd a chanolfannau cymunedol. Nododd yr Arweinydd iddo golli'r cyfleoedd hyn gan ei fod wedi galluogi'r Cyngor i roi rhesymau am y ffordd yr oedd angen gwneud rhai pethau, fodd bynnag roedd yn gobeithio y gellid gwneud hyn cyn diwedd y flwyddyn.

Yng nghyswllt y cynnydd arfaethedig o 4% yn y Dreth Gyngor, dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn farciwr a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol gan na fedrid cyflawni'r ffigur blaenorol a bod angen i'r Awdurdod bob amser fynd yn uwch na'r targed blaenorol. Mae'r targed hwn yn rhoi llinell sylfaen i osod cyllideb gytbwys ac roedd wedi ei gytuno gan y Cyngor. Roedd yr Arweinydd yn deall yn llawn rai o'r safbwyntiau a godwyd yn y Cydbwyllgor Craffu a chytunodd y dylai cynnydd y Dreth Gyngor fod yn is na'r 4% a gynigir. Nodwyd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn cael ei drafod yn y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef

a) bod y Pwyllgor Gweithredol yn argymell cyllideb refeniw 2021/2022 i'r Cyngor fel y manylir yn yr adroddiad;

b) bod y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi sylwadau ar y deilliannau o fewn y setliad RSG darpariaethol ac yn nodi'r potensial am newid pellach yn y setliad RSG terfynol;

c) bod y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi sylwadau ar y deilliannau o fewn

| | | |
|---|---|---|
| | setliad RSG darpariaethol CBSBG a'i effaith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol;<br><br>d) bod y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ac yn argymell i'r Cyngor y pwysau cost a'r eitemau twf (cyfanswm o £2.074m) a ddynodwyd yn Atodiad 3 i'w gynnwys yng nghyllideb y Cyngor;<br><br>e) bod y Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried ac yn argymell i'r Cyngor ymchwydd o £1.472m sy'n gyfartal a chynnydd o 3.3% i Gronfa Ysgolion Unigol. Mae hyn yn adlewyrchu ymchwydd crynswth o 3.6% (sy'n ymgorffori grant cyflog athrawon yn trosglwyddo i'r setliad o £84,000) wedi'i addasu ar gyfer gostyngiad o £150,000 mewn demograffeg;<br><br>f) bod y Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried ac yn argymell i'r Cyngor y dylai unrhyw beth a gyflawnir yng nghynigion Pontio'r Bwlch sy'n uwch na'r gofyniad cyllideb yn y flwyddyn gael ei drosglwyddo i gronfa a glustnodwyd i gefnogi cynllunio ariannol tymor canol, yn benodol ar gyfer blynyddoedd diweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canol; a<br><br>g) bod y Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried sylwadau gan y Cydbwyllgor Craffu ac yn argymell y dylai cynnydd Treth Gyngor islaw'r 4% arfaethedig ar gyfer 2021/11 gael ei drafod a'i gymeradwyo yn y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021. | |
| **No. 9** | **<u>CYNLLUN BUDDSODDIAD TGCH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau a'r Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod yr adroddiad yn amlinellu'r set lawn o gynigion ar opsiynau buddsoddi sydd eu hangen i gadw seilwaith TGCh cadarn a chydnerth. Nododd y Prif Swyddog Interim y tri chategori – stad cyfrifiaduron desg; stad rhwydwaith a theleffoneg a'r gofrestr contractau a rhoddodd drosolwg o'r gwaith i gael ei wneud fel yr amlinellir yn yr adroddiad<br><br>Ar y pwynt hwn, rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau drosolwg o'r costau cyfalaf a refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynigion. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y cynigion buddsoddiad seilwaith angen buddsoddiad cyfalaf dechreuol ar draws y stadau cyfrifiaduron desg a rhwydwaith o £464,000 yn y ddwy flynedd ddiwethaf gyda buddsoddiad blynyddol o £166,000 wedi hynny.<br><br>Cafodd y rhaglen adnewyddu cyfrifiaduron desg diweddar ar gyfer y ddogn gyntaf ei chyllido gan gronfeydd wrth gefn, fodd bynnag nid yw hyn yn gynaliadwy bellach ac felly cynigiwyd cytuno dyraniad blynyddol o £166,000 fel rhan o raglen gyfalaf y Cyngor o 2021-22 ymlaen gyda'r balans ar gyfer blynyddoedd 1 a 2 (£132,000) yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn TGCh.<br><br>Yn nhermau costau refeniw ar gyfer gweithredu teleffonau Teams a'r Ganolfan Gyswllt, dywedwyd y byddai'r rhain yn £77,000 y flwyddyn, fodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | bynnag byddai hyn yn cael ei gyllido o'r gyllideb refeniw a sefydlwyd eisoes ar gyfer y gwasanaethau presennol sydd yn eu lle gyda'r costau hyn yn lle'r costau a geir ar y gwasanaethau cyfredol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol nad oedd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi codi unrhyw faterion a'i fod wedi cymeradwyo Opsiwn 1 i'w argymell i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad a dywedodd fod angen hyn gan fod yr Awdurdod yn chwarae dal lan hirdymor ganfod y seilwaith wedi bod ar ôl llawer o awdurdodau lleol. Amlygwyd hyn dros y 12 mis diwethaf gyda mwy o ddibyniaeth ar weithio rhithiol. Byddai'r gwaith hyn o fudd pellach i'r gwahanol ddulliau gweithredu y byddai'r Cyngor yn eu cymryd ac yn galluogi gweithrediad llyfn unrhyw newidiadau yn y dyfodol.<br><br>Cytunodd y Dirprwy Arweinydd gyda'r sylwadau a godwyd a dywedodd fod TGCh angen yr adolygiad hwn gan ei fod yn faes sy'n newid drwy'r amser. Teimlai'r Dirprwy Arweinydd y byddai arian ar gael yn y dyfodol i gefnogi'r maes gan y byddai'n agor mwy o bosibiliadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 1; sef bod y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried y cynigion ac yn argymell y buddsoddiad yn y seilwaith TGCh i'r Cyngor ei gymeradwyo. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 10** | **<u>PARODRWYDD AM Y DDEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gweithredol ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) (2018) a'r cynnydd a wnaeth y Gyfarwyddiaeth Addysg i baratoi am hynny. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y cwmpas a'r cefndir a nododd y bu gan bob Cyngor gyfrifoldeb ers mis Medi 2021 am sicrhau fod gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cod oedd yn cyd-fynd a hi i gefnogi dysgwyr 0-25 oed.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gefnogaeth ranbarthol a lleol a dywedodd fod y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno swydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | statudol newydd o fis Ionawr 2021 o Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Blynyddol Blynyddoedd Cynnar. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn falch i nodi y penodwyd i'r swydd ym mis Rhagfyr a'i fod yn rhan o'r gwasanaeth ADY yn Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm.<br><br>Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio atal prosesau AAA statudol yn ystod pandemig COVID-19. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na fu'n dasg rwydd rheoli hyn yn yr amgylchiadau presennol. Fodd bynnag, gyda'r dull gweithredu rhanbarthol a lleol yn ei le, mae'r tîm Cynhwysiant yn hyderus fod popeth sydd yn ei angen yn ei le ar gyfer mis Medi 2021.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg at y goblygiadau cyllideb a dywedodd nad yw'r effaith ar y gyllideb o fis Medi 2021 yn hollol hysbys hyd yma, fodd bynnag byddai gofyniad ar gyfer Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar fyddai'n arwain at bwysau cost pellach o £70,000.<br><br>Diolchodd Aelod Gweithredol Addysg i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am gyflwyniad cynhwysfawr o'r adroddiad sy'n cydnabod faint o waith a wnaed i sicrhau fod y Cyngor yn barod ar gyfer y Ddeddf ADY. Roedd yr Aelod Gweithredol yn falch y byddai'r Cyngor yn barod ar gyfer mis Medi 2021 i gefnogi ein disgyblion ADY.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Blaenau Gwent yn cytuno y byddai'r ADY yn barod ar gyfer mis Medi 2021 pan ddaw'r Ddeddf ADY yn weithredol ac mae paratoadau addas yn mynd rhagddynt. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 11** | **<u>PRYDAU BWYD CYMUNEDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol y cafodd prydau bwyd cymunedol eu trosglwyddo i Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2020 ac er heriau'r pandemig, gwelodd y gwasanaeth gynnydd yn y prydau ers y | |

| | | |
|---|---|---|
| | trosglwyddo. Bu'r cynnydd oherwydd y pandemig a pheth gwaith marchnata masnachol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymdeithasol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y diffyg o £25,000 wedi gostwng i £18,000 ar ddiwedd Chwarter 2 ond bod hyn wedi gostwng ymhellach i £14,000 yn Chwarter 3. Gobeithir y byddai'r diffyg yn cael ei ostwng ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Nododd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol y cynnydd da a wnaed o fewn y gwasanaeth ers ei drosglwyddo a dymunai ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion am ei gwaith a'i phenderfyniad i droi'r prosiect prydau cymunedol o amgylch. Cafodd y gwaith a gyflawnwyd ei gydnabod yn y galw a'r gostyngiad yn y diffyg ac mae'r Aelod Gweithredol yn edrych ymlaen at wella'r gwasanaeth ymhellach ar gyfer aelodau mwyaf bregus ein cymunedau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo yr argymhellion ar gyfer blaengynllunio hirdymor y gwasanaeth fel y manylir yn yr adroddiad. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO – ADDYSG</u>** | |
| **No. 12** | **<u>CYNNYDD BAND B YSGOLION 21AIN GANRIF</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 13** | **<u>RHAGLEN RHANNU PRENTISIAETH ANELU'N UCHEL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar berfformiad rhaglen Anelu'n Uchel ac ymgysylltu cysylltiedig â busnesau allanol ac amlinellodd yr wybodaeth perfformiad ar raglen prentisiaeth fewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol y bu'r prosiect yn gweithio'n dda gyda busnesau drwy gydol y pandemig a nododd y gyfradd gadw lwyddiannus ar gyfer y prentisiaid. Mae defnydd cadarnhaol o'r rhaglen yn dal i fod ymhlith adrannau'r Cyngor a gobeithid y gellid symud y cynllun ymlaen gyda chyllid mewn cysylltiad gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br><br>Diolchodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd i'r staff, busnesau a phrentisiaid eu hunain am eu hymrwymiad yn ystod y pandemig gan fod pob parti cysylltiedig wedi cydweithio. Croesawodd yr Aelod Gweithredol ehangu'r cynllun i Ferthyr Tudful a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd gan y byddai hyn yn ehangu gwaith a chyfleoedd y rhaglen Anelu'n Uchel ymhellach ar gyfer y dyfodol.<br><br>Roedd y Pwyllgor Gweithredol yn falch i weld bod y rhaglen yn darparu'r cyfleoedd hyn ac yn hybu lefelau sgiliau ym Mlaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 14** | **<u>RHAGLEN BUDDSODDIAD ADFYWIO WEDI'I DARGEDU A CHYNLLUN CYLLID AD-DALADWY CANOL TREFI</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. Wilkins fuddiant yn yr adroddiad hwn ac arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y trafodaethau, fodd bynnag ni gymerodd ran wrth wneud y penderfyniad.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad a rhoi trosolwg o'r wybodaeth ynddo. Croesawodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd yr adroddiad a nododd y gwnaed llawer iawn o waith ar draws Blaenau Gwent i fynd i'r afael ag adeiladau a fu'n wag am gyfnod hir ac ardaloedd. Mae'r Tîm Adfywio wedi parhau i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod ansicr a achoswyd gan y pandemig i sicrhau bod busnesau Blaenau Gwent yn goroesi.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r diweddariad | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnydd. | |
| **No. 15** | **<u>PARC CYFLOGAETH, RHODFA CALCH – DIWEDDARIAD CYNNYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 16** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>** | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 17** | **<u>CYNLLUN DATBLYGU METRO PLWS BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud a materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y manylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 18** | **<u>THEATR METROPOLE – DARPARYDD CYFLENWI GWASANAETH ARALL</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud a materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a'r Opsiwn fel y manylir yn yr adroddiad. | |